Beth allwch chi wneud i ddathlu Diwrnod Shwmae Su'mae yn yr ysgol?

- Pawb i wisgo coch, gwyn a gwyrdd ar y diwrnod

- Yr Awr Fawr- sgwrsio yn Gymraeg gan gynnwys holl staff yr ysgol, rhieni, llywodraethwyr. (Creu cardiau cymorth ar gyfer dysgwyr o wahanol lefelau)

- Cwis Cymraeg (Bydd cwis yn cael ei baratoi ar lefel Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith)

- Gwahodd siaradwyr Cymraeg i'r ysgol

- Chwarae cerddoriaeth Gymraeg yn ystod amser cinio neu gynnal disco Cymraeg (Gellir lawrlwytho cerddoriaeth Gymraeg o i-tunes/spotify/youtube ayyb)

- Creu gwaith celf gan ddefnyddio'r gair Shwmae fel sbardun e.e. murlun graffiti, baneri, bathodynnau

- Coginio cacennau a'u haddurno gyda llythrennau'r gair SHWMAE . Os yn bwyta/ gwerthu'r cacennau rhaid i bawb ofyn yn Gymraeg

- Siaradwr Cymraeg y dydd/ yr wythnos gyda gwobr fach i'r enillydd, unigolyn, grwp neu ddosbarth

- Sialens siarad Cymraeg dros amser cinio i gynnwys staff y gegin a gofalwyr awrginio. Creu bwydlen Gymraeg, arwyddion Cymraeg ac annog archebu bwyd yn Gymraeg